1-19

# Can Newydd,

Yn gosod allan

# GARWRIAETH

# BILLY WILLIAMS

A

# HANNAH JOHNSON

O LANHAFREN ;

*Pa rai a briodasant Hydref* 20, 1818.

---

Gan JOHN JAMES, Llandysul.

---

Ad-argraffiad o Gân gyhoeddwyd gan J. Jones, Trefriw, yn 1819.

# CAN NEWYDD, &c.

TRIGOLION siroedd Cymru yn fawrion ac yn fân,
O dewch yn nes i wrando ar air neu ddau o gân;
Cewch glywed genyf hanes yn llyn mewn geiriau llawn,
Am fab a merch fu'n caru heb gel yn gywir iawn.

Yr oedd y ferch fonheddig o berchen llawer iawn
O aur ac arian hefyd a thiroedd llydain llawn
A'i glendid yn rhagori ar ferched tre' a gwlad,
A hi oedd 'r unig blentyn a fedda'i mam a'i thad.

Hi ro'ws ei bryd a'i *fancy*, a'i bwriad oll i gyd,
Ar garu mab i ffarmwr, heb fawr o bethau'r byd;
Gwrthododd hi Arglwyddi, Marchogion teg eu gwawr,
Gan dd'weud mai gwell oedd cariad na chyfoeth India fawr

'Nol iddynt hwy gydsynio briodi trwy fawr serch
Aeth rhywrai'n glau a'r newydd at dad a mam y ferch
A'r 'Squire pan y clywodd a neidiodd ar ei dra'd,
Fel un o'r dynion ffola' fu erio'd o fewn i'r wlad.

Danfonodd am gwnstabli i ddal y feinir lon,
Yn fuan gorfu iddi ymddangos ger ei fron :
Fe dd'wedai mynnai 'i danfon i bant i'r gwledydd pell,
Os na wnai wrando ei gynghor, a matchio'n llawer gwell.

Pe b'ai chwi yn fy anfon i bant yn mhell o dir,
Neu 'ngosod mewn tywyllwch dan gloion dewrion dur,
Cewch weled yn y diwedd na fyddai'ch gwaith ond ffol,
Mi gym'ra 'nhynu'n ddarnau cyn tynnai 'i ngeiriau nol.

Hi ga's ei rhoi dan gloion dros bedwar mis ar ddeg,
A'i chadw mewn tywyllwch heb fawr o chwareu teg;
Er cymmaint ga's hi ei phoeni heb neb i wrando'i chwyn,
Yr oedd hi'n foddlon marw dan gloion er ei fwyn.

X 205199401

Dywedai'i thad os matchiai 'i a'r marchog teg ei wawr,
Oedd berchen tai a thiroedd ac aur ac arian mawr,
Ca'i rydd-did ddyfod allan, a pharch a chlod yn siwr,
On'de cai chadw yno a byw ar fara a dwr.

Pe bawn i'n cael fy newis o'r bonedd yn mhob lle,
Ni chym'ra'i neb 'rwy' nabod yn briod ond efe;
Fy anwyl dad rho'wch rydd-did i mi gael dyfod ma's,
Does dim yn well na chariad ar wyneb daear lâs.

Mi'ch cadwaf mewn tywyllwch tra parao 'nyddiau i,
Heb feddu cwys o'm daear, na dyfod byth im tŷ,
Heb weled haul na lleuad na llewyrch mewn un lle,
Oni wnewch chwi roddi ffarwel dros byth i'w gwmp'ni e.'

'D wy'n ceisio dim o'r fodfedd o'ch tai na'ch tiroedd chwi :
'Rwy'n foddlon fyn'd heb ddimmai i bant oddiwrth eich tŷ
Gwell gennyf hela'm *living* trwy'r wlad o le i le,
Na chael meddianau'r derynas a cholli gwmp'ni e'.

A'r mab 'ben pedair blynedd ddyfeisiau'r ffordd mewn brad,
I weithio coffin newydd, fel gallai dwyllo ei thad ;
A'r cwmp'ni aeth i gladdu y coffin hardd ei wedd,
Gan ddwaud mae Billy Williams yn gorwedd yn y bedd.

Pan clywa'i thad roi Billy i orwedd yn y pridd,
Fe gyrhaeddau'r agoriadau, gael tynnu ei ferch yn rhydd
Gan ddweud mi fynna'ch matchio a'r Squire teg ei bryd,
Yr hwn a all eich cadw fel duwies gynnes glyd.

Os ro'wd y glan ei ddeurydd i orwedd yn y pridd.
Er mwyn y mab mi rodia a'm dwylaw bach yn rhydd,
Ond nid oes i mi obaith gael gwel'd ei wyneb mwy,
O gariad darfu iddo ddioddef marwol glwy'.

Yn mhen y tri diwrnod cyfarfu'r mab a'r ferch,
Y seren fwyn garedig oedd wedi tynnu ei serch ;
Cofleidiau, fe'i cysanai 'i y gangen deg o bryd,
Ple gwelwyd dau mor ffyddlon yn caru o fewn i'r byd.

'Roedd well gan Hannah Johnson gael gwel'd ei wyneb-
pryd,
Na buasai'n cael meddianau y ddaear yma i gyd ;
A'r dagrau o lawenydd yn ffrydio ei dau-rudd fwyn,
A'i chariad rhwng ei breichiau yn gwrando ar ei chwyn.

Oddiyno o flaen offeiriad yr aethant hwy ill dau,
Danfonwyd am y License i gael priodi 'n glau,
Ac yno hwy briodwyd er gwaetha'i mam a'i thad,
Maent heddyw gyda'u gilidd er maint eu llid a'u brad.

A'r Squire pan y clywodd i'r rhai'n briodi 'ch dau
Dechreuai rwygo ei ddillad heb wybod beth a wnai ;
O falais at ei blentyn fe ddrysodd *sense* y dyn,
Fe gym'rodd *ddose* o wenwyn nes iddo ladd ei hun.

Gwell fuasai iddo syrthio o flaen gorseddfa gref,
A llefain am faddeuant ar Awdwr dae'r a nef ;
'Roedd yntau'n gwrando'r gelyn ne's marw trwy fawr boen
A'i enaid ca's ro'i cyfri' o flaen yr addfwyn Oen.

Cymerwch chwithau rybydd pob rhai sy'n gwrando'r gan,
Am beidio rhwystro cariad byth mwy fynd yn y bla'n,
Waith nid oes dim ond angeu i gael o fewn i'r byd
All rwystro dau fo'n caru yn ffyddlon fynd ynghyd.

DIWEDD.

*J. D. Lewis, Argraffydd, Gwasg Gomer, Llandyssul*